






Ymyrraeth	Mannau Gwyrdd a Diogel		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Melyn	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
Yn Arwain	Steve Morgan a Huw Jakeway	Cyfnod Adrodd	Chwarter 2 2021-22	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau
Creodd gweithdy rhwydwaith (Medi 2021) waith partneriaeth pellach, cyfleoedd i gydweithio a brwdfrydedd dros y weledigaeth hon ar draws nodau a rennir. Mae aelodaeth o'r rhwydwaith yn ehangu ac yn arallgyfeirio.
Cynhaliwyd adolygiad cyflym o ymchwil i <i>Fynediad Cymunedau Amrywiol at Fannau Gwyrdd Lleol a'u Defnydd Ohonynt</i> , gydag argymhellion i'r Bwrdd a'r Rhwydwaith eu datblygu.
Cyfathrebu: 5 ^{ed} e-gylchlythyr i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 yn rhannu arfer gorau ledled Casnewydd, hyrwyddo gwaith y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, cyfleoedd i gydweithio, adroddiadau diweddaraf, adnoddau a chyllid. Gwybodaeth ad hoc sy'n cael ei hanfon i'r Rhwydwaith rhwng cylchlythyrau. Cynlluniau i greu fersiwn 1 tudalen hawdd ei ddeall a/neu fideo o nodau'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel. Mae llawer o astudiaethau achos y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel yn adroddiad blynyddol y Cynllun Lles 2020-2021.
Cyflawnwyd 1 wobr y Faner Werdd Gymunedol newydd ar gyfer The Laundry yn Nhŷ Tredegar, ac mae 5 Baner Werdd arall wedi'u cynnal am flwyddyn arall.
Sicrhawyd cyllid er mwyn cynnal astudiaeth o ddichonoldeb Seilwaith Gwyrdd (SG) yng Nghanol y Ddinas erbyn mis Mawrth 2022, i nodi cyfleoedd ar gyfer SG, ymgysylltu â phartneriaid a busnesau, gyda'r bwriad o wneud SG yn rhan o gynlluniau creu lleoedd yn y dyfodol.
Mae CNC yn ariannu gwaith mapio ar gyfer cyfleoedd ôl-ffitio to gwyrdd yng nghanol dinesig Casnewydd, er mwyn annog toeau gwyrdd. Yn cysylltu â'r astudiaeth o ddichonoldeb SG.
Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) - crëwyd briff i recriwtio ymgynghorydd addas i weithio ar yr ASG/ strategaeth.
Mae drafft cynllun Newid yn yr Hinsawdd CDC yn ymgorffori agweddau ar yr ymyriad hwn, ystyriaethau defnydd tir a tharged plannu coed. Bydd y drafft yn mynd allan ar gyfer sylwadau.
Mae'r gwaith o adnewyddu'r mesurau Perfformiad ar gyfer yr ymyriad hwn bron wedi'i gwblhau.
Mae sesiynau lles coetiroedd wedi'u cynllunio ar gyfer Betws, yng nghoedwig CNC, fydd yn cael eu cyflwyno gan Coed Lleol, mewn partneriaeth â Hyb Gogledd CDC.
Darparodd CNC lythyr o gefnogaeth i gais Buglife am gynnal Prosiect Pryfed Peillio.

Mesuriadau Perfformiad Allweddol	Targed	Gwirioneddol	CMG
% / hectarau o fannau glas a gwyrdd hygyrch * Mynegai Mannau Gwyrdd Meysydd Chwarae Cymru	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	
% Brigdwf coed * Brigdwf Wardiau'r DU WebMap i-Tree	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	
Nifer o Safleoedd Pryfed Peillio CDC	20	 48	Gwyrdd
Aelodau'r rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel	100	 135	Gwyrdd
Nifer y bobl oedd yn bresennol yng ngweithdy diwethaf y Rhwydwaith	30	31	Gwyrdd
Agor cylchlythyr Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel Dilynwyd ar y cyfryngau cymdeithasol (Twitter) Olion twît ac ymweliadau â'r proffil	130	210	Gwyrdd
	150	 91	Gwyrdd
	6,000	7,583	Gwyrdd
Prosiectau cydweithredol gweithredol sy'n cyflawni gweledigaeth y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel a Seilwaith Gwyrdd	15	 18	Gwyrdd
Baneri Gwyrdd erbyn 2023: Cymuned Baneri Gwyrdd erbyn 2023: Gwobr Lawn	8	 3	Gwyrdd
	5	3	Gwyrdd
Nifer y cynlluniau a strategaethau y mae'r weledigaeth Gwyrdd a Diogel / SG wedi'i hymgorffori ynddynt	3	3	Gwyrdd

Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd	Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen
Mannau gwyrdd nad ydynt wedi'u hamddiffyn yn ddigonol yn y broses gynllunio	Canolig	Defnyddiwyd map/cronfa ddata Seilwaith Gwyrdd (SG) yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Aseiad SG ar y gweill, gan greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer Strategaeth SG.
Gallu partneriaid i gyflawni yn erbyn uchelgeisiau ymyrraeth Gwyrdd a Diogel.	Uchel	Cynrychiolwyr sefydliadau partner i godi pwysigrwydd y Cynllun Lles/ymyrraeth mewn cyfarfodydd cynllunio busnes mewnol.
Cyfyngiadau Covid-19	Canolig	Parhau i gyfathrebu ar-lein i gefnogi'r Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel. Wrth i gyfyngiadau lacio, adeiladu ar y cysylltiadau gwaith cryf a grëwyd.
Prosiectau'n cael eu hoedi yn ystod y cyfnod pontio i BGC Gwent	Canolig	Parhau i weithio gyda sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a'r Rhwydwaith i ddarparu Mannau Gwyrdd a Diogel tra'n cefnogi BGC Gwent.

Lleihau'r canlynol (mewn man glas gwyrdd):	(Ch1 2020 vs Ch1 2021)		
	Achosion o dipio anghyfreithlon	86	54
Digwyddiadau tân bwriadol	22	26	Gwyrdd
Digwyddiadau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	115	43	Gwyrdd

[Llesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol](#) (25, 26, 28, 29, 38, 40, 43, 44)
[Mynegai Lleoedd Ffyniannus - Casnewydd 2021](#) Lle ac Amgylchedd, Cynaliadwyedd
[MALIC - Hafan \(llyw.cymru\)](#) Amgylchedd Ffisegol

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf

Annog a chefnogi ceisiadau'r Faner Werdd ar gyfer Ionawr 2022.

Parhau i gryfhau cysylltiadau â Chasnewydd Ddiogelach ac is-grwpiau

Cynllunio gweithdy nesaf y Rhwydwaith ar gyfer Chwefror 2022 i wneud rhagor o waith partneriaeth a chyflawni nodau cyffredin, parhau i ehangu ac arallgyfeirio'r rhwydwaith

Cyrchu'r map/cronfa ddata SG ar ddechrau 2022.

Parhau i ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau cyfathrebu.

Parhau i gryfhau cysylltiadau a chyfleoedd gyda Chymdeithasau Tai.

Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli drwy'r Cylchlythyr.

Archwilio argymhellion y papur adolygu cyflym gyda'r bwrdd a'r Rhwydwaith.

Rhannu'r dysgu gyda Phartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG).

Cefnogi'r sesiynau lles coetiroedd ym Metws.